GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales	Rhif Cyfeirnod: PHW-SCD15 Rhif y Fersiwn: 1.0 Dyddiad yr adolygiad nesaf: Gorffennaf 2026

Fframwaith Gyrfa ar gyfer Gweithwyr Iechyd Proffesiynol a Reoleiddir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC), y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac yn cynnwys Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cyflwyniad a Nod

Rhaid ymgymryd â datblygu gweithlu modern a'r prosesau sydd eu hangen i sicrhau datblygu gyrfa a chymhwysedd mewn rolau, yn sail i gynaliadwyedd drwy ein strategaeth olyniaeth ('Meithrin eich Staff eich Hun'), a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau. Mae llunio gyrfaoedd yn y dyfodol, yn mynd law yn llaw â chynllunio gwasanaethau a'r ysgogiad i gyrraedd safonau uchel o wasanaeth fel y mae'n datblygu mewn ymateb i anghenion newidiol y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu.

Mae'r Fframwaith Gyrfa wedi'i gynllunio i:

- Arwain datblygu proffesiynol yn ddi-dor o lefel cyn-ymarferydd, drwy lefel ymarferydd sydd newydd gymhwyso, ac ymlaen i ymarfer profiadol, arbenigol.
- Gwella datblygiad gyrfa a boddhad swydd ar gyfer ein staff drwy annog unigolion i ddysgu sgiliau newydd a derbyn cyfrifoldebau ychwanegol sy'n eu galluogi i symud ymlaen yn y sefydliad.
- Hyrwyddo gweithlu mwy ystwyth drwy nodi sgiliau, gwybodaeth a chymwyseddau craidd y gellir eu trosglwyddo rhwng rolau presennol sy'n draddodiadol yn wahanol, neu i rolau newydd ac unigryw a allai ddeillio o ddatblygu gwasanaethau arloesol

Polisïau, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Cysylltiedig

Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau corfforaethol ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Fframwaith Goruchwylio Clinigol ar gyfer Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd 2023 (yn aros am gymeradwyaeth)

AaGIC 2022 Fframwaith Proffesiynol ar gyfer Ymarfer Clinigol Gwell, Uwch ac Ymgynghorol yng Nghymru

Pobl a Datblygu Sefydliadol Cefnogi'r Broses Dysgu a Datblygu 2018

Strategaeth Ansawdd a Gwella Iechyd Cyhoeddus Cymru 2021-2030

Cwmpas Diben cyffredinol y Fframwaith hwn yw cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy ddarparu llwybrau at gynnydd drwy gynorthwyo'r gwaith o drawsnewid y gweithlu. Mae hyn yn adlewyrchu ein bwriad strategol i gryfhau'r ddarpariaeth o ofal effeithiol o ansawdd uchel	
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd	Gellir dod o hyd i Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd ar y dudalen polisïau a gweithdrefnau ar y fewnrwyd.
Cymeradwywyd gan	Y Tîm Gweithredol Busnes
Dyddiad Cymeradwyo	19 Gorffennaf 2023
Dyddiad Adolygu	19 Gorffennaf 2026
Dyddiad Cyhoeddi:	17 Hydref 2023
Cyfarwyddwr Gweithredol Atebol/Cyfarwyddwr	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd.
Awdur	Caroline Whittaker, Nyrs Arwain Broffesiynol, Rheolwr Bydwreigiaeth a Safonau - Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Edward Guy, Arweinydd Proffesiynol Gwyddor Gofal Iechyd a Phroffesiynau Perthynol i Iechyd – Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Ymwadiad **Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydych yn ei defnyddio yw'r un ddiweddaraf, naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu Uned Fusnes y Bwrdd**

Crynodeb o adolygiadau/diwygiadau				
Rhif y fersiwn	**Dyddiad yr Adolygiad**	**Dyddiad Cymeradwyo**	**Dyddiad cyhoeddi**	**Crynodeb o'r Diwygiadau**
1.0	2023	18/07/2023	17/10/2023	Fframwaith Newydd

1. Cyflwyniad

Nododd Cymru Iachach (2018)[1] yr angen i ddatblygu Strategaeth Gweithlu newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, sy'n cynnwys cynllunio ar gyfer modelau gweithlu clinigol newydd a chynorthwyo datblygu gyrfa hirdymor.

Mae ein gweithlu wrth wraidd ein gallu i ddarparu gwasanaethau rhagorol ac mae angen pobl dalentog arnom gyda'r gallu, y capasiti a'r ymrwymiad cywir i weithredu pob un o'n chwe blaenoriaeth strategol. Felly, mae angen i ni barhau i ddenu a chadw talent a datblygu pobl i gyflawni eu potensial llawn.

Mae Ein Strategaeth Hirdymor[2] a Strategaeth Bobl[3] Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi'r angen i sicrhau ein bod yn parhau i lunio, datblygu a gwella ein modelau gweithlu i fod yn fwy hyblyg, er mwyn gallu addasu a diwallu anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu, drwy gyflawni ein chwe blaenoriaeth ac amcan strategol.

Mae datblygu a chyd-greu modelau darparu gwasanaethau newydd yn ganolog i strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni Gofal Iechyd Darbodus. Bydd y rhain yn anochel yn effeithio ar y sgiliau, y wybodaeth a'r cymwyseddau sy'n ofynnol gan staff ar draws pob gradd, o weithiwr cymorth i ymgynghorydd.

Mae ein gwerthoedd sefydliadol[4] yn disgrifio'r hyn y dylai pawb yn ein sefydliad ddisgwyl ei weld, ei glywed a'i deimlo fel y disgrifir yn ein fframwaith ymddygiadol sy'n seiliedig ar werthoedd "Bod ar Ein Gorau".

Yn ogystal â'r gwerthoedd hyn, mae gan y sefydliad a'i arweinwyr ddyletswydd i ddarparu'r arweinyddiaeth, yr amodau, yr amgylchedd cefnogi a'r sgiliau cywir i sicrhau bod gennym weithlu llawn cymhelliant a chynaliadwy a all addasu i heriau a blaenoriaethau'r sefydliad.

2. Cefndir

Rhaid ymgymryd â datblygu gweithlu modern a'r prosesau sydd eu hangen i sicrhau datblygu gyrfa a chymhwysedd mewn rolau, yn sail i gynaliadwyedd drwy ein strategaeth olyniaeth ('Meithrin eich Staff eich Hun'), a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau. Mae llunio gyrfaoedd yn y dyfodol, yn mynd law yn llaw â chynllunio gwasanaethau a'r ysgogiad i gyrraedd safonau uchel o wasanaeth fel y mae'n datblygu mewn ymateb i anghenion newidiol y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu.

---

[1] Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU

[2] https://phw.nhs.wales/about-us/our-priorities/long-term-strategy-documents/public-health-wales-long-term-strategy-working-to-achieve-a-healthier-future-for-wales/

[3] Strategaeth Bobl Iechyd Cyhoeddus Cymru 2020-30. Ein gweithlu i wireddu dyfodol iachach i Gymru https://icc.gig.cymru/gyrfaoedd/strategaeth-bobl-2020-30-iechyd-cyhoeddus-cymru/

[4] Ein Gwerthoedd. Iechyd Cyhoeddus Cymru https://icc.gig.cymru/gyrfaoedd/ein-gwerthoedd/

Mae'r Fframwaith Gyrfa wedi'i gynllunio i:

- Arwain datblygu proffesiynol yn ddi-dor o lefel cyn-ymarferydd, drwy lefel ymarferydd sydd newydd gymhwyso, ac ymlaen i ymarfer profiadol, arbenigol.
- Gwella datblygiad gyrfa a boddhad swydd ar gyfer ein staff drwy annog unigolion i ddysgu sgiliau newydd a derbyn cyfrifoldebau ychwanegol sy'n eu galluogi i symud ymlaen yn y sefydliad
- Hyrwyddo gweithlu mwy ystwyth drwy nodi sgiliau, gwybodaeth a chymwyseddau craidd y gellir eu trosglwyddo rhwng rolau presennol sy'n draddodiadol yn wahanol, neu i rolau newydd ac unigryw a allai ddeillio o ddatblygu gwasanaethau arloesol.

3. Beth yw fframwaith gyrfa?

3.1 Mae fframwaith datblygu gyrfa yn rhoi gwybod i gyflogeion pa gamau sydd angen iddynt eu cymryd i fynd lle y mynnant yn eu gyrfa. Gyda fframwaith datblygu gyrfa yn ei le, ni ddylai fod unrhyw beth annisgwyl pan fyddant yn cael adolygiadau perfformiad ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i gael dyrchafiad neu symud i rôl newydd.

Bydd y Fframwaith Gyrfa yn darparu:

- *cysondeb* – fel offeryn galluogi sy'n darparu iaith gyffredin, gyson i gynorthwyo datblygu gyrfa
- *diffiniad o'r lefel gyrfa* gyda nodweddion a phriodoleddau a briodolir iddo sy'n disgrifio, er enghraifft, faint o gyfrifoldeb, cymhlethdod meddwl a lefel y penderfyniadau sy'n ofynnol
- *cymhwysedd* – cymwyseddau craidd y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol ar bob lefel
- *cynnydd* – rhoi ffordd i unigolion fynegi eu cyflawniadau a nodi'r opsiynau sydd ar gael i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau craidd a datblygu eu gyrfaoedd, yn fertigol ac yn llorweddol yn yr un lefel gyrfa neu i mewn i'r lefel gyrfa nesaf
- *natur drosglwyddadwy* ar draws rolau
- *addysg a hyfforddiant dangosol* ar gyfer pob lefel o'r fframwaith gyrfa a fydd yn helpu staff i weld beth sy'n ofynnol ar bob lefel o gynnydd

Felly, dylai'r Fframwaith Gyrfa gynorthwyo staff i wneud dewisiadau gyrfa drwy'r canlynol:

- bod yn sail i'w dealltwriaeth o'r hyn a ddisgwylir ar bob lefel gyrfa
- nodi sgiliau craidd, y wybodaeth a chymwyseddau eraill y gellir eu trosglwyddo rhwng gofynion rolau, adnoddau a llwybrau ar gyfer cynnydd gyrfa.

3.2 Beth nad ydyw?

Nid yw'r Fframwaith yn disgrifio rolau unigol. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar y cymwyseddau craidd sy'n ofynnol ar gyfer pob lefel gyrfa, beth bynnag fo'r rôl

benodol. Mae hyn i nodi beth yw'r gofynion ar gyfer cynnydd gyrfa mewn llwybrau proffesiynol presennol, a pha gymwyseddau a sgiliau y gellir eu trosglwyddo ar draws rolau presennol a newydd

3.3 Strwythur y Fframwaith Gyrfa:

Mae'r Fframwaith yn ceisio diffinio'r cymwyseddau craidd cyffredinol sy'n berthnasol i bob lefel Ymarferydd, ynghyd â'r lefel cymhwyster academaidd sy'n ofynnol ar gyfer pob un o'r rhain, h.y. Gweithiwr Cymorth/Gweithiwr Cymorth Cyswllt (lefel cymhwyster 2-3), Ymarferydd Cynorthwyol (lefel cymhwyster 4), Ymarferydd (lefel cymhwyster 5/6), Uwch Ymarferydd (lefel cymhwyster 7/8) ac Ymarferydd Ymgynghorol (lefel cymhwyster 8/9).

Mae'r Fframwaith wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio gan bob aelod o staff yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a bydd yn:

- Disgrifio'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol, a lefel y cyfrifoldeb ar bob Lefel Ymarferydd
- Dangos cyfleoedd gyrfa
- Cefnogi symud gyrfa i bob cyfeiriad
- Dangos opsiynau cynnydd gyrfa yn seiliedig ar sgiliau a chymwyseddau (disgrifiad o'r safonau perfformiad disgwyliedig)
- Galluogi pobl i nodi eu sgiliau a'u cymwyseddau presennol perthnasol, a'r rhai y byddai angen iddynt eu datblygu i symud i rôl wahanol.

4. Cysoni â Fframweithiau Gyrfa eraill sy'n benodol i Broffesiynau

Mae nifer o gyrff proffesiynol wedi datblygu fframweithiau gyrfa yn bennaf i arwain cynnydd yn eu proffesiwn. Mae'r fframwaith gyrfa presennol wedi'i fwriadu i ddarparu arweiniad safonol ar draws yr holl grwpiau proffesiynol perthnasol sy'n gweithio yn Iechyd Cyhoeddus Cymru at y dibenion a nodwyd yn Adran 3.1 ac nid yw, felly, yn ceisio disodli fframweithiau penodol i broffesiynau sydd eisoes yn bodoli. Yn hytrach, y bwriad yw cynnig arweiniad i staff a allai fod eisiau ystyried ar ba lefel mewn fframwaith gyrfa penodol fyddai'n bwynt mynediad mwyaf priodol yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u sgiliau presennol, a rhoi cymorth i'r cyflogwr ynghylch penderfynu pa waith datblygu sgiliau ac arbenigedd fyddai'n ofynnol i sicrhau'r ystwythder mwyaf posibl yn y gweithlu.

5. Y Pedair Colofn Ymarfer

Mae'r Fframwaith yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad craidd yn y pedair colofn ymarfer (Ffigur 1). Ar gyfer gweithio ar Lefelau Cymwysterau 2-9 (Dylid nodi nad yw'r Lefel Cymwysterau o reidrwydd yr un peth â'r Band Agenda ar gyfer Newid ym mhob rôl)

- Ymarfer clinigol/Ymarfer Proffesiynol: y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen i ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel sy'n ddiogel, yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar y person

- Addysg a Dysgu: y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen i alluogi dysgu effeithiol yn y gweithle

- Arwain a Rheoli: y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen i arwain a chyflawni cyfrifoldebau rheoli

- Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu: y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen i ddefnyddio tystiolaeth i lywio ymarfer a gwella gwasanaethau.

Gall y pwyslais ar bob colofn amrywio yn ôl lefel yr ymarfer a'r rôl benodol. Er enghraifft, gall y pwyslais fod ar y golofn 'Ymarfer Clinigol/Ymarfer Proffesiynol' ar gyfer ymarferydd ar Lefel 5, ond ar lefel 8, gall y golofn 'Arwain' gael y lle blaenaf gan y gallant fod yn ymgymryd â chyfrifoldebau arwain pellach sy'n gymesur â'u rôl.

Yn yr un modd, gall ymarferydd mewn rôl oruchwylio neu hyfforddiant roi mwy o bwyslais ar ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n gysylltiedig â'r golofn 'Addysg a Dysgu', nag ymarferydd ar yr un lefel sy'n gweithio mewn rôl fwy clinigol. Yn dibynnu ar rôl yr unigolyn, efallai na fydd yn ofynnol iddo ddangos yr holl wybodaeth, sgiliau ac ymddygiad drwy'r amser, ond dylai feddu ar y gallu i wneud hynny os oes angen, ar eu lefel ymarfer a'r holl rai yn y lefel flaenorol o ymarfer.

Ffigur 1-Pedair Colofn Ymarfer



6. Lefelau ymarferwyr a theitlau Rôl Swydd cyffredinol

Rhagwelir y gallai cyfres o Rolau Swydd cyffredinol fod o gymorth wrth fapio gweithlu'r dyfodol. Er enghraifft, gellid eu defnyddio wrth ddatblygu modelau darparu gwasanaethau newydd, yn ogystal â chynorthwyo aelodau unigol o staff i nodi'r lefel mynediad fwyaf priodol i fframwaith penodol i broffesiwn sydd eisoes yn bodoli, h.y., asesiad 'cyfwerthedd'.

Mae **Ffigur 2** yn cynrychioli trosolwg cyffredinol o'r rolau amrywiol hyn, yn seiliedig ar Lefel Fframwaith Gyrfa a phwyslais ar draws y 'Pedair Colofn', gyda'r nod o gynorthwyo 'mapio' Rolau Swydd penodol i broffesiynau sy'n bodoli yn ein gweithlu.

Ffigur 2 Lefel Fframwaith Gyrfa'r GIG a Lefel Gweithiwr Cymorth/Ymarferydd Cyffredinol



7. Beth yw cymhwysedd?

7.1 Mae'r Fframwaith Gyrfa yn canolbwyntio ar gymwyseddau cyffredinol sy'n berthnasol i'r lefel ymarfer. Yn y Fframwaith Gyrfa, mae cymhwysedd yn mynegi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad craidd gofynnol y mae angen i unigolion ddod â nhw i'r gweithle, er mwyn gallu gweithio ar lefel benodol o ymarfer. Mae hyn yn fwy na dim ond gallu perfformio'n gyson i safonau diffiniedig yn y gweithle; mae'n golygu hefyd meddu ar y wybodaeth sylfaenol ofynnol a'r agweddau a'r ymddygiad cywir i allu ymgymryd â'r rôl. Mae hyn yn galluogi'r unigolyn i weithio mewn amgylcheddau sefydlog gyda phroblemau cyfarwydd a chymhleth ac, y tu hwnt i hyn, i weithio'n effeithiol mewn sefyllfaoedd a allai fod yn gymhleth ac sy'n gofyn am hyblygrwydd a chreadigrwydd, wrth i'w gyrfa fynd rhagddi.

Yn ogystal â chymwyseddau sy'n benodol i rôl, ceir amrywiaeth o gymwyseddau cyffredinol a chraidd a ddylai fod yn gyson ar draws yr un lefel o ymarfer mewn grwpiau proffesiynol gwahanol. Felly, er bod rhai pobl yn ysgwyddo cyfrifoldeb ychwanegol yn eu maes eu hunain, efallai y bydd eraill yn ailhyfforddi ac yn symud i rolau gwahanol.

Mae **Ffigur 2** yn rhoi manylion am y berthynas rhwng lefel gyrfa a lefel ymarferydd ar draws y pedwar parth. Gellir dod o hyd i ddisgrifiad llawn yn y "Gyrfaoedd Iechyd gweithlu iechyd cyhoeddus craidd". Dangosir crynodeb o'r sgiliau sydd eu hangen ar bob lefel gyrfa isod:

- **Lefel 2**

  Mae angen gwybodaeth sylfaenol ar bobl am ffeithiau ynghylch maes gwaith. Efallai y byddant yn cyflawni dyletswyddau clinigol, technegol, gwyddonol neu weinyddol yn unol â phrotocolau neu weithdrefnau sefydledig, neu systemau gwaith.

  Enghraifft o rôl: Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd/Gweithiwr Cymorth Biofeddygol

- **Lefel 3**

  Mae angen i bobl feddu ar wybodaeth am ffeithiau, egwyddorion, prosesau a chysyniadau cyffredinol mewn maes gwaith. Efallai y byddant yn cyflawni amrywiaeth ehangach o ddyletswyddau na'r person sy'n gweithio ar lefel 2, a bydd ganddynt fwy o gyfrifoldeb, gydag arweiniad a goruchwyliaeth ar gael pan fo angen. Byddant yn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau ac maent yn gyfrifol am hunanddatblygiad.

  Enghraifft o rôl: Uwch-gynorthwyydd Gofal Iechyd/Gweithiwr Cymorth Biofeddygol Arbenigol

- **Lefel 4**

Mae angen gwybodaeth ffeithiol a damcaniaethol ar bobl mewn cyd-destunau eang mewn maes gwaith. Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan drefniadau gweithredu safonol, protocolau neu systemau gwaith, ond mae'r gweithiwr yn llunio barn, yn cynllunio gweithgareddau, yn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau ac yn dangos hunanddatblygiad. Efallai y bydd ganddynt gyfrifoldeb am oruchwylio rhai staff.

Enghraifft o rôl: Ymarferydd Cynorthwyol

- **Lefel 5**

Bydd gan bobl wybodaeth gynhwysfawr, arbenigol, ffeithiol a damcaniaethol mewn maes gwaith ac ymwybyddiaeth o ffiniau'r wybodaeth honno. Maent yn gallu defnyddio gwybodaeth i ddatrys problemau'n greadigol, llunio barn sy'n gofyn am ddadansoddi a dehongli, a chyfrannu'n weithredol at ddatblygu'r gwasanaeth a hunanddatblygiad. Efallai y bydd ganddynt gyfrifoldeb am oruchwylio staff neu hyfforddi.

Enghraifft o rôl: Ymarferydd

- **Lefel 6**

Mae angen dealltwriaeth feirniadol ar bobl am wybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol fanwl, maent yn arbenigwyr a/neu mae ganddynt gyfrifoldebau rheoli ac arwain. Maent yn dangos menter ac yn greadigol wrth ddod o hyd i atebion i broblemau. Mae ganddynt rywfaint o gyfrifoldeb am berfformiad tîm a datblygu'r gwasanaeth, ac maent yn ymgymryd â hunanddatblygiad yn gyson.

Enghraifft o rôl: Ymarferydd Arbenigol/Uwch-ymarferydd

- **Lefel 7**

Mae gan bobl ymwybyddiaeth feirniadol o faterion gwybodaeth yn y maes ac yn y rhyngwyneb, rhwng gwahanol feysydd. Maent yn arloesol ac mae ganddynt gyfrifoldeb am ddatblygu a newid ymarfer a/neu wasanaethau mewn amgylchedd cymhleth ac anrhagweladwy.

Enghraifft o rôl: Uwch Ymarferydd

- **Lefel 8**

Mae angen gwybodaeth arbenigol iawn ar bobl, y bydd rhywfaint ohoni ar flaen y gad o ran gwybodaeth mewn maes gwaith, y maent yn ei defnyddio fel sail ar gyfer syniadau gwreiddiol a/neu ymchwil. Maent yn arweinwyr sydd â chyfrifoldeb sylweddol, a'r gallu i ymchwilio i brosesau cymhleth a'u dadansoddi. Mae ganddynt gyfrifoldeb am wella neu ddatblygu gwasanaethau. Efallai y bydd ganddynt gyfrifoldebau clinigol a/neu reoli

sylweddol, yn atebol am ddarparu gwasanaethau neu bydd ganddynt rôl flaenllaw o ran addysg neu gomisiynu.

Enghraifft o rôl: Ymgynghorydd/Uwch Staff

- **Lefel 9**

Bydd angen gwybodaeth ar bobl ar derfynau mwyaf datblygedig y maes gwaith ac ar y rhyngwyneb rhwng meysydd. Bydd ganddynt gyfrifoldeb am ddatblygu a darparu gwasanaeth i boblogaeth, ar lefel uchaf y sefydliad.

Enghraifft o rôl: Cyfarwyddwr/Staff Uwch (e.e., Arweinydd Gwasanaeth)

8. Cymorth Hyfforddiant GIG Cymru (Addysg a Gwella Iechyd Cymru)

Nod Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yw darparu amrywiaeth integredig o hyfforddiant ac addysg ar draws yr holl grwpiau staff yn GIG Cymru, gyda'r nod o roi'r cyfle, i unrhyw unigolyn ddatblygu ei yrfa'n ddi-dor ar draws yr holl Lefelau Fframwaith Gyrfa (o Lefel 2 i Lefel 9, ac i Lefel Gweithredol y Bwrdd). Wedi'i sefydlu yn 2018 fel Awdurdod Iechyd Arbennig, mae AaGIC yn eistedd ochr yn ochr â byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau fel rhan o GIG Cymru.

Mae 'Cymru Iachach' yn cydnabod bod llunio a datblygu'r gweithlu gofal iechyd yn barhaus yn hanfodol i ansawdd, darparu gofal a chyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG yng Nghymru.

Er mwyn cyflawni hyn, mae AaGIC yn darparu amrywiaeth o gymorth i staff a'i fyrddau iechyd partner ac ymddiriedolaethau yn GIG Cymru, sy'n cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): prentisiaethau (Lefel 2 ac uwch); cymwysterau lefel gradd (Baglor, Gradd Meistr a Doethuriaeth); hyfforddiant sy'n benodol i'r proffesiwn; a sgiliau rheoli craidd ac ymarferwyr.

Gall holl sefydliadau GIG Cymru wneud cais am gyllid ar gyfer hyfforddi staff newydd, ac ar gyfer datblygu eu gweithlu presennol. Gall aelodau unigol o staff geisio cymorth, drwy eu cyflogwr ar gyfer hyfforddiant pwrpasol, a gall darpar gyflogeion newydd wneud cais drwy un o'r nifer o raglenni hyfforddi a gefnogir gan AaGIC.

ATODIAD A

Fframwaith Gyrfa Gwyddorau Gofal Iechyd

1. **Gwyddorau Clinigol/Biofeddygol**
2. **Radiograffeg**

Atodiad A-1 Y llwybr addysg, hyfforddiant a gyrfa ar gyfer Gwyddorau Clinigol/Biofeddygol

Mae'r tabl isod yn disgrifio'r lefelau gyrfa allweddol ar gyfer gweithlu Gwyddor Gofal Iechyd y DU ac mae'n cyfeirio at sut y mae'r rhain yn mapio ar y Fframwaith Gyrfa craidd (Ffigur 2). Dyma'r lefelau gyrfa allweddol:

- Gweithwyr Cymorth Biofeddygol: Band 2-4
- Swyddogion Technegol Meddygol: Band 2-5
- Gwyddonwyr Biofeddygol: Band 5-8*
- Gwyddonwyr Clinigol: Band 6-9*

  * Bydd y graddfeydd uchaf yn adlewyrchu cyfrifoldebau rheoli a/neu glinigol ychwanegol

Lefel Gyrfa	**Gweithgareddau rôl**	**Llwybr Addysg a Hyfforddiant**
Cynorthwyydd (BMSW/MTO)	Ymgymryd â thasg a phrotocol wedi'u diffinio'n glir, gweithgareddau ar raddfa fawr, risg isel. Hyfforddiant drwy hyfforddiant a phrentisiaethau strwythuredig yn y gweithle	Prentisiaethau, NVQ (neu gyfwerth) yn seiliedig ar fframwaith dyfarnu a chymwysterau
Swyddog Cyswllt (BMSW/MTO)	Ymgymryd â thasgau ymchwiliol ar raddfa fawr mwy datblygedig a chymhleth. Hyfforddiant drwy hyfforddiant yn y gweithle a gradd Sylfaen	Graddau Sylfaen, Prentisiaethau ac NVQ (neu gyfwerth) yn seiliedig ar fframwaith dyfarnu a chymwysterau
Ymarferydd/ Uwch Ymarferydd (Gwyddonydd Biofeddygol)	Cymhwyso technegol, wrth ddarparu ac adrodd ar brofion, ymchwiliadau ac ymyriadau sy'n destun sicrhau ansawdd. Gweithgareddau wedi'u hamlinellu mewn protocolau - yn defnyddio barn ac yn ymdrin ag amwysedd. Hyfforddiant drwy'r Rhaglen Hyfforddi Ymarferwyr (PTP).	PTP (Rhaglen Hyfforddi Ymarferwyr) – gradd israddedig gyda lleoliad clinigol
Ymarferydd/ Uwch Ymarferydd (Gwyddonydd Clinigol)	Rolau gwyddonol a chlinigol cymhleth. Gweithgareddau risg uchel, ar raddfa fach sy'n gofyn am staff medrus iawn sy'n gallu arfer barn glinigol am ffeithiau cymhleth a sefyllfaoedd clinigol. Hyfforddiant drwy'r Rhaglen Hyfforddi Gwyddonwyr (STP)	STP (Rhaglen Hyfforddi Gwyddonwyr) – gradd ôl-raddedig (lefel Gradd Meistr) gyda lleoliad clinigol

Ymgynghorydd (Gwyddonydd Clinigol)	Rôl fanwl, gymhleth iawn. Yn debyg i'r rôl ymgynghorydd meddygol gan ei bod yn gofyn am farn glinigol, arbenigedd gwyddonol, arweinyddiaeth ac ymdrin ag ansicrwydd mewn gofal uniongyrchol i gleifion. Hyfforddiant drwy'r rhaglen Hyfforddiant Arbenigol Uwch (HSST).	HSST (Hyfforddiant Gwyddonol Arbenigol Uwch) ar lefel ddoethuriaeth

Atodiad A-1 Llwybr Hyfforddi Gwyddonwyr Gofal Iechyd y DU

Mae'r ffigur isod yn rhoi trosolwg o'r llwybr hyfforddi cenedlaethol, sy'n nodi'r berthynas rhwng y lefelau gyrfa amrywiol a ddisgrifiwyd uchod.

Mae strwythur a llwybrau fframwaith gyrfa Microbioleg Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'u dangos ar y dudalen nesaf ac maent yn adlewyrchu'r gofynion gweithredol ar gyfer y model darparu gwasanaeth presennol ac arfaethedig.



*A elwid gynt yn:**Moderneiddio Gyrfaoedd Gwyddonol:Llwybrau Gyrfa a Hyfforddiant**
[1]fel Ymarferydd Gwyddor Gofal Iechyd
[2]fel Gwyddonydd Biofeddygol
[3]rhaglen seiliedig ar waith gyda DClinSci yn sail iddi
[4]yn cael ei datblygu ar hyn o bryd

HCPC: Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
AHCS: Academi Gwyddor Gofal Iechyd
PSA: Awdurdod Safonau Proffesiynol (mae'n achredu AHCS a chofrestrau gweithlu eraill)


Ymarfer a reoleiddir gan HCPC
Adran Microbioleg
Fframwaith Gyrfa – Gwyddonydd Gofal Iechyd. Ffynonellau Cronfa Hyfforddi AaGIC
STP
PTP
HSST
Prentisiaethau
Cyllid Cyfwerthedd
Ymarfer Uwch/Gwell /Estynedig
:
Rheoli
Clinigol
BMS Band 8 (Cyfrifoldebau uwch reoli)
BMS Ymgynghorol Band 8 (Llwybr/ Cymwyseddau heb eu diffinio eto)
Uwch-wyddonydd Clinigol Band 7/8
Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol Band 8
Hyfforddiant Arbenigol
BMS Arbenigol/Uwch Band 6/7 (Uwch-ymarferydd Gofal Iechyd)
Gwyddonydd Clinigol Band 7
HSST
Hyfforddiant Arbenigol
STP
BMS Band 5/6 (Ymarferydd Gofal Iechyd)
BMSW Band 3 (Ymarferydd Gofal Iechyd Cynorthwyol)
BMSW Band 4 (Swyddog Cyswllt Gofal Iechyd)
PTP
IBMS C o A Rhan 1
Ymarfer Achrededig
IBMS C o A Rhan 2
BMSW Band 2 (Cynorthwyydd Gofal Iechyd)
Prentisiaeth Is
Prentisiaeth Uwch
Atodiad U Hyfforddai Band 5 (Ymarferydd Gofal Iechyd Dan Hyfforddiant)
Gwyddonydd Clinigol Dan Hyfforddiant Band 6 (Gwyddonydd Gofal Iechyd Dan Hyfforddiant)
Gwyddonydd Clinigol Dan Hyfforddiant Band 6/7 (Gwyddonydd Gofal Iechyd Dan Hyfforddiant)
BMSW Band 2 (Cynorthwyydd Gofal Iechyd Dan Hyfforddiant)
BMSW Band 2 (Swyddog Cyswllt Gofal Iechyd Dan Hyfforddiant)
MTO Band 2/3
MTO Band 4
MTO Band 5
Dim cynnydd ffurfiol y tu hwnt i Fand 5

Atodiad A-2 Y llwybr addysg, hyfforddiant a gyrfa ar gyfer Radiograffeg

Dyma'r lefelau gyrfa allweddol ar gyfer gweithlu Radiograffeg y DU:

Mae **ymarferwyr cynorthwyol** yn staff nad ydynt wedi'u cofrestru sydd wedi'u hyfforddi i safonau uchel i gynnal amrywiaeth penodol o archwiliadau delweddu clinigol neu weithdrefnau triniaeth. Mae gwaith ymarferwyr cynorthwyol yn cael ei ddirprwyo o dan oruchwyliaeth radiograffydd neu radiolegydd cofrestredig. Mae ymarferwyr cynorthwyol yn sail i'r hyn y cyfeirir ato fel strwythur pedair haen mewn radiograffeg ac yn ei hwyluso. Mae'r strwythur pedair haen yn cyfeirio at rolau gwahanol yn y tîm: ymarferydd cynorthwyol; ymarferydd radiograffydd; uwch-ymarferydd radiograffydd; radiograffydd ymgynghorol.

Mae **radiograffyddion** yn weithwyr proffesiynol rheoleiddiedig gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC). Mae ganddynt hawl i feddu ar un o'r teitlau gwarchodedig Radiograffydd, Radiograffydd Diagnostig neu Radiograffydd Therapiwtig. Mae radiograffyddion yn ymgymryd â phortffolio eang o naill ai archwiliadau diagnostig neu weithdrefnau radiotherapi. Maent yn gweithio mewn partneriaeth ag aelodau'r tîm a gofalwyr i ddarparu gofal a allai gynnwys sgrinio, diagnosis, triniaeth neu fonitro iechyd i gleifion. I gofrestru, rhaid i radiograffyddion feddu ar gymhwyster BSc(anrh) neu MSc perthnasol. I gynnal cofrestriad gyda'r HCPC, rhaid i Radiograffyddion ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus a chadw cofnod ohono. Yn ogystal â safonau HCPC, mae radiograffyddion yn gweithio i safonau cod ymddygiad proffesiynol Cymdeithas y Radiograffyddion. Mae'r cod yn cynnwys disgwyliadau bod radiograffyddion yn gweithredu yn unol â gwerthoedd parch, grymuso, empathi, ymddiriedaeth, uniondeb a chyfiawnder. Rhaid i radiograffyddion bob amser weithredu gyda thosturi: mae gofalu am gleifion wrth wraidd yr hyn mae radiograffyddion, ymarferwyr cynorthwyol a staff cymorth yn ei wneud.

Mae **radiograffyddion diagnostig** yn gweithio mewn meysydd sy'n cynnwys pelydr-x, uwchsain, fflworosgopeg, tomograffeg gyfrifiadurol (CT), delweddu atseiniol magnetig (MRI), meddygaeth niwclear, angiograffeg a mamograffeg.

Mae Cymdeithas a Choleg y Radiograffyddion yn cefnogi'r gwaith o ymestyn cwmpas ymarfer aelodau lle mae addysg, hyfforddiant ac archwilio digonol o ymarfer yn darparu gwasanaethau diogel ac effeithiol i ddiwallu anghenion cleifion lleol.

Mae **uwch ymarferwyr a radiograffwyr ymgynghorol** yn cynyddu cyfrifoldeb yn eu rolau swydd yn ôl eu trefn i bwynt lle mae parthau craidd gwaith ymgynghorol fel a ganlyn: 1) ymarfer clinigol arbenigol; 2) arweinyddiaeth ac ymgynghoriaeth broffesiynol; 3) addysg, hyfforddiant a datblygu, datblygu ymarfer a gwasanaethau; 4) ymchwil a gwerthuso. (gwefan CoR)

Fframwaith Gyrfa - Radiograffeg



ATODIAD B

Llwybr Nyrsio a Bydwreigiaeth

B-1 Cwmpas Datblygu Proffesiynol

B-2 Lefelau Fframwaith Gyrfa

Atodiad B-1

Cwmpas datblygu proffesiynol a chynnydd ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd,Nyrsys a Bydwragedd yn Iechyd Cyhoeddus


O leiaf 120 o gredydau ar Lefel 4 y Fframwaith Credydau a Chymwysterau
O leiaf 54 o gredydau ar Lefel 3 y Fframwaith Credydau a Chymwysterau
O leiaf 46 o gredydau ar Lefel 2 y Fframwaith Credydau a Chymwysterau
HCSW Lefel 4
HCSW Lefel 3
HCSW Lefel 2
Hyfforddiant Nyrsio/ Bydwreigiaeth:
Rhaid bodloni'r Gofynion Mynediad i gael mynediad at Nyrsio neu Fydwreigiaeth fel y manylir gan y Brifysgol sy'n derbyn
BAND 7
Ymarferydd Datblygedig
BAND 6
Uwch-ymarferydd
BAND 5
Ymarferydd
Cynnydd Gyrfa
rôl ymarferydd ac uwchymarferydd
Opsiwn: Band 7
Profiad Portffolio a rheoli
Opsiwn: Band 6
MSc/Profiad Portffolio Cyflawn
Opsiwn: B5 Graddedigion sy'n cael eu recriwtio
Rhaglen 2 flynedd ar gyfer MSc Iechyd Cyhoeddus/Diogelu Iechyd
Nawdd gan AaGIC
B6 ar ôl ennill MSc
Gradd ôl-raddedig i Ddoethuriaeth
Gradd (yn dibynnu ar brofiad), Gradd ôlraddedig i Ddoethuriaeth
Gradd, Gradd ôl-raddedig i Ddoethuriaeth
Diploma/Gradd

Atodiad B-2-2 Lefelau Fframwaith Gyrfa (Sgiliau ar gyfer Iechyd 2020).

9

Fframwaith Gyrfa Lefel 9

Bydd angen i bobl sy'n gweithio ar lefel 9gael gwybodaeth ar derfynau mwyaf datblygedig y maes gwaith ac ar y rhyngwyneb rhwng meysydd. Bydd ganddynt gyfrifoldeb am ddatblygu a darparu gwasanaeth i boblogaeth, ar lefel uchaf y sefydliad. **Teitl Dangosol neu Gyfeirio: Cyfarwyddwr**

8

Fframwaith Gyrfa Lefel 8

Mae angen gwybodaeth arbenigol iawn ar bobl ar lefel 8 y fframwaith gyrfa, y bydd rhywfaint ohoni ar flaen y gad o ran gwybodaeth mewn maes gwaith, y maent yn ei defnyddio fel sail ar gyfer syniadau gwreiddiol a/neu ymchwil. Maent yn arweinwyr sydd â chyfrifoldeb sylweddol, a'r gallu i ymchwilio i brosesau cymhleth a'u dadansoddi. Mae ganddynt gyfrifoldeb am wella neu ddatblygu gwasanaethau. Efallai y bydd ganddynt gyfrifoldebau clinigol a/neu reoli sylweddol, yn atebol am ddarparu gwasanaethau neu bydd ganddynt rôl flaenllaw o ran addysg neu gomisiynu. **Teitl Dangosol neu Gyfeirio: Ymgynghorydd**

7

Fframwaith Gyrfa Lefel 7

Mae gan bobl ar lefel 7 y fframwaith gyrfa ymwybyddiaeth feirniadol o faterion gwybodaeth yn y maes ac yn y rhyngwyneb, rhwng gwahanol feysydd. Maent yn arloesol ac mae ganddynt gyfrifoldeb am ddatblygu a newid ymarfer a/neu wasanaethau mewn amgylchedd cymhleth ac anrhagweladwy.
Teitl Dangosol neu Gyfeirio: Ymarferydd Datblygedig

6

Fframwaith Gyrfa Lefel 6

Mae angen dealltwriaeth feirniadol ar bobl ar lefel 6 am wybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol fanwl, maent yn arbenigwyr a/neu mae ganddynt gyfrifoldebau rheoli ac arwain. Maent yn dangos menter ac yn greadigol wrth ddod o hyd i atebion i broblemau. Mae ganddynt rywfaint o gyfrifoldeb am berfformiad tîm a datblygu'r gwasanaeth, ac maent yn ymgymryd â hunanddatblygiad yn gyson.
Teitl Dangosol neu Gyfeirio: Arbenigwr/Uwch-ymarferydd

5

Fframwaith Gyrfa Lefel 5

Bydd gan bobl ar lefel 5 wybodaeth gynhwysfawr, arbenigol, ffeithiol a damcaniaethol mewn maes gwaith ac ymwybyddiaeth o ffiniau'r wybodaeth honno. Maent yn gallu defnyddio gwybodaeth I ddatrys problemau'n greadigol, llunio barn sy'n gofyn am ddadansoddi a dehongli, a chyfrannu'n weithredol at ddatblygu'r gwasanaeth a hunanddatblygiad. Efallai y bydd ganddynt gyfrifoldeb am oruchwylio staff neu hyfforddi.
Teitl Dangosol neu Gyfeirio: Ymarferydd

4

Fframwaith Gyrfa Lefel 4

Mae angen gwybodaeth ffeithiol a damcaniaethol ar bobl ar lefel 4 mewn cyddestunau eang mewn maes gwaith. Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan drefniadau gweithredu safonol, protocolau neu systemau gwaith, ond mae'r gweithiwr yn llunio barn, yn cynllunio gweithgareddau, yn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau ac yn dangos hunanddatblygiad. Efallai y bydd ganddynt gyfrifoldeb am oruchwylio rhai staff.
Teitl Dangosol neu Gyfeirio: Ymarferydd Cynorthwyol/Cyswllt

3

Fframwaith Gyrfa Lefel 3

Mae angen i bobl ar lefel 3 feddu ar wybodaeth am ffeithiau, egwyddorion, prosesau a chysyniadau cyffredinol mewn maes gwaith. Efallai y byddant yn cyflawni amrywiaeth ehangach o ddyletswyddau na'r person sy'n gweithio ar lefel 2, a bydd ganddynt fwy o gyfrifoldeb, gydag arweiniad a goruchwyliaeth ar gael pan fo angen. Byddant yn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau ac maent yn gyfrifol am hunanddatblygiad.
Teitl Dangosol neu Gyfeirio: Uwch-gynorthwywyr Gofal Iechyd/Technegwyr

2

Fframwaith Gyrfa Lefel 2

Mae angen gwybodaeth ffeithiol sylfaenol am faes gwaith ar bobl ar lefel 2. Efallai y byddant yn cyflawni dyletswyddau clinigol, technegol, gwyddonol neu weinyddol yn unol â phrotocolau neu weithdrefnau sefydledig, neu systemau gwaith. **Teitl Dangosol neu Gyfeirio: Gweithiwr Cymorth**

1

Fframwaith Gyrfa Lefel 1

Mae pobl ar lefel 1 ar lefel mynediad, ac mae angen gwybodaeth gyffredinol sylfaenol arnynt. Maent yn ymgymryd â nifer cyfyngedig o dasgau syml o dan oruchwyliaeth uniongyrchol. Gallent fod yn ddechreuwr newydd o ran gwaith yn y sector iechyd, a symud ymlaenyn gyflym i Lefel 2.
Teitl Dangosol neu Gyfeirio: Cadét